

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

Bwrseriaethau Hyfforddi 2022/23

Cefnogi cyrff sydd yn cyflwyno ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ar draws Cymru a'r DU



Delwedd: Image: FHW & ICO
Tech Ambassador Training with
Gentle/Radical



Cyllid: hyd at £500

Ceisiadau: treiglo (4 wythnos cyn eich hyfforddiant)

Ffenestr gweithgaredd: Ebrill 2022 - Rhagfyr 2022 (os bydd eich cynlluniau yn ddisgyn rhwng Ionawr - Mawrth 2023, cysylltwch â ni)

Nod: bwrseriaethau datblygiad proffesiynol i arddangoswyr

Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi sefydliadau sydd yn ddangos ffilmiau i gynulleidfae cyhoeddus, yn cynnwys gwyliau ffilm, cymdeithasau a chanolfannau celfyddyd cymysg. Nod y gronfa yma ydy cyflwyno'r gorau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfae ar draws Cymru.

Rydym yn rhan o wyth ganolfannau ar draws y DU a gyllidir gan y Loteri Cenedlaethol drwy Sefydlaeth Ffilm Prydeinig (BFI). Rydym yn ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) gyda Chapter wedi'i benodi fel y 'Corff Arweiniol Canolfan Ffilm' (FHLO) yng Nghymru.

Am enghreifftiau o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch ar [uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru](#).

Beth yw bwrseriaethau hyfforddi?

Mae'r gronfa fwrseriaeth hon wedi'i chynllunio i alluogi staff a gwirfoddolwyr yn sefydliadau aelodau FHW i ddatblygu eu sgiliau er budd eu hunain, eu sefydliad a'r rhwydwaith Hyb ehangach.

Er y gall hyfforddiant gwmpasu sbectrwm eang o bynciau, o fynychu cyfarfodydd y tu allan i'r awdurdod lleol, i gyrsiau marchnata neu godi arian mwy dwys, y nod cyffredinol ddylai fod i ddatblygu cynulleidfae ar gyfer ffilm annibynnol a rhyngwladol Prydeinig yng Nghymru.

Pwy all wneud cais?

- Aelodau staff a gwirfoddolwyr yn sefydliadau sy'n aelodau o FHW.
- Bydd ymgeiswyr nad ydynt wedi derbyn cymorth drwy'r cynllun bwrsariaeth o'r blaen yn cael blaenoriaeth dros bobl sydd wedi derbyn cymorth bwrsariaeth yn flaenorol.

Enghreifftiau defnyddiol o ymgeiswyr llwyddiannus:



Mynychodd **Carys Haf Evans** (Yr Egin) Gynhadledd arloesi mewn arddangos This Way Up yn Broadway, Nottingham.

[Darllenwch Flog Carys yma.](#)



Mynychodd **Yasmin Begum** (Sinema Golau) Sea Change Women in Film Development lab gan Screen Argyll.

[Darllenwch flog Yasmin yma.](#)



Fadhili Maghiya (Watch-Africa) - [Durban Film Festival](#). Mynychu i hyrwyddo amcanion rhaglennu a chysylltu gyda chydweithwyr

Pa fath o weithgaredd y gall bwrseriaeth ei gefnogi?

Gall gweithgareddau gynnwys:

- Cyrsiau hyfforddi (technegol, rhaglennu, datblygiad busnes, codi arian
- Marchnata, amrywiaeth a chynhwysiant, AD, argyfwng hinsawdd etc.),
- Cynadleddau
- Cyfarfodydd,
- Gwyliau,
- Dangosiadau ac ymweliadau darganfod ffeithiau i gyrff eraill,

Engbreifftau defnyddiol o gyrsiau:

- [Rhaglen codi arian cefyddydau](#) a dyngarwch, sgiliau codi arian hanfodol,
- [ICO & BFI FAN's Reach](#) : Datblygiad cynulleidfa strategol i arddangoswyr annibynnol.

[Gweler rhai engbreifftau o fwrseriaethau a gefnogwyd o'r blaen yma.](#)

Rydym yn annhebygol o gefnogi:

- Rhywun sydd wedi derbyn bwrseriaeth o'r blaen i gymryd rhan yn yr un gweithgaredd fwy nag unwaith.
- Mwy nag un person fesul corff i gymryd rhan mewn cyfle neilltuol.
- Os ydych chi'n gallu cyflwyno achos cryf dros gefnogaeth yn yr amgylchiadau yma, fe fydd eich cais yn cael ei ystyried.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd yn y dolenni canlynol:

- [FHW Adnoddau](#)
- [Sinema Cynhwysol](#)
- [The Bigger Picture](#)
- [FAN Conversations](#)
- [Queer Film Network](#)
- [FAN Young Audiences](#)
- [Sinema Cymunedol Gwledig](#)
- [Dyddiau rhagddangos ffilmiau Cymreig](#) (gwyllo ffilmiau Cymreig cyn eu rhyddhau gydag arddangowyr eraill)
- [Sinema i Bawb a Chanolfan Ffilm Cymru Cynllun Ilogi offer](#)
- [FAN Advice Sessions](#) (cymorth ar amrediad o bynciau gan arbenigwyr)
- [Rhwydwaith Gŵyl Ieuencid Cymru](#)



Am faint y gallaf wneud cais?

- Gall bwrseriaeth dalu am ffioedd, coostau teithio a llety
- Mae bwrseriaethau rhwng £50 a £500 ar gael, hyd at uchafswm o 100% ffioedd a 50% teithio a llety.
- Mae galw mawr am arian bwrseriaeth felly gwnewch gais os gwelwch yn dda dim ond am y swm rydych chi ei angen.

Sut i wneud cais

- Gellir gwneud cyflwyniadau ar sail treigl (heb ddyddiad cau penodol) ond dydyn ni ddim yn derbyn ôl-gyflwyniadau.
- Fe ddylech gyflwyno eich cais bwrseriaeth o leiaf bedair wythnos cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.
- Gallwn ystyried eich cais o fewn amserlen fyrrach ond dylech ysgrifennu atom ar wahân yn gofyn am ein cyngor ar hyn cyn i chi ei gyflwyno.
- Rhaid i hyfforddiant ddigwydd o fewn y flwyddyn ariannol berthnasol a rhaid ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2022 (os bydd eich cynlluniau yn ddisgyn rhwng Ionawr - Mawrth 2023, cysylltwch â ni).

Gwneud penderfyniad

- Fe fydd penderfyniadau ar ddyrannu cyllid bwrseriaeth yn cael ei wneud gan uwch aelod o staff Canolfan Ffilm Cymru.
- Cofiwch bod y galw am fwrseriaethau yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael ac felly ni fyddwn bob amser yn gallu cynnig cefnogaeth i bawb neu i'r lefel y gofynnwyd amdano.
- Fe fyddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sydd agosaf at ein blaenoriaethau.

Image: SQIFF / Queer Film Network



Blaenoriaethau ar gyfer cefnogaeth

a) Byddwn yn blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer presenoldeb mewn digwyddiadau / hyfforddiant yn ôl y [flaenoriaethau 2022 BFI](#):

- Cynulleidfaoedd ifanc,
- Cynulleidfaoedd amrywiol ac wedi'u tanwasanaethu,
- Treftadaeth Sgrin,
- Gwneud y mwyaf o ddewis cynulleidfa a dyfnhau ymgysylltiad diwylliannol

Gweler ein [canllawiau](#) am ragor o wybodaeth am y meysydd hyn.

b) Rydym hefyd eisiau defnyddio ein Cynllun Bwrseriaeth i gefnogi [Safonau Amrywiaeth BFI](#) drwy:

- Galluogi pobl/cyrff o gymunedau lleiafrifol i gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol;
- Ehangu amrediad y ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd gyda straeon, castiau, criw a lleoedd amrywiol yn cael eu darluno;
- Hyrwyddo hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol a fydd yn helpu i ddatblygu cynulleidfaoedd sydd wedi eu tanwasanaethu neu sydd yn ddifreintiedif (yn cynnwys dulliau o wella mynediad i gynulleidfaoedd anabl).

c) Fe fyddwn yn blaenoriaethu presenoldeb mewn gweithgareddau sydd yn cyfrannu at y byd bywiog yn y DU o wyliau ffilm, digwyddiadau dangos, cynadleddau a chyfleoedd hyfforddi.

- Trefnir llawer o'r rhain gan aelodau FAN, gan roi cyfleoedd gwych i ddysgu, codi proffil a chreu perthnasoedd.

d) Mae gwerth cyhoeddus clir o'n buddsoddiad yn bwysig gan fod cyllid FAN yn dod o achosion da y Loteri Cenedlaethol.

- Fe fyddwn yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau a gredwn sydd yn cynnig y gwerth gorau am arian.

Ataliad Bwlio, Aflonyddu a Hiliaeth

Datblygodd BFI a BAFTA set o egwyddorion a chanllaw ddim-goddefiad mewn ymgynghoriad gyda sefydliadau, undebau a chyrff ddiwydiant ar draws y byd ffilm, teledu a sinemau mewn ymateb i broblemau brys a systematig. [Mae'r ddogfennau ar gael yma.](#)

Gofynnwn i'r holl ymgeiswyr ymgysylltu gyda'r egwyddorion yma drwy, ar y lleiaf, eu darllen a'u rhannu o fewn eich sefydliad

Cynaliadwydd Amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith amgylcheddol y gwaith a gefnogwn ac rydym yn gofyn i bawb sydd yn derbyn cyllid i wneud yr hyn a allant i gyfrannu at y nod yma.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi pa fesurau y gallech eu cymryd i gadw effaith amgylcheddol eich prosiect i'r lleiaf.

Mae rhai enghreifftiau ysbrydoledig o arddangoswyr sydd yn gwneud gwaith yn y maes yma yn cynnwys Scott Cinemas, HOME, Curzon and Depot. Mae gennym hefyd restr o adnoddau ar ein gwefan, yn cynnwys [ICO Greening Your Cinema Toolkit](#).

Ailgadarnhau

Y cyflwyniadau cryfaf fydd y rhai sydd ym marn FHLO yn amlwg yn sefydlu:

- Cydweddiad strategol gyda blaenoriaethau BFI2022 and a'r Ganolfan
- Cefogaeth i Safonau Amrywiaeth BFI;
- Y manteision a'r gwaddol penodol i'ch corff ac i'r rhwydwaith Canolfan ehangach
- Gwerth am arian;
- Cynaliadwyedd amgylcheddol.

Gwerthusiadau a thaliadau

- Cadwch y derbynebaw gwrieddiol gan fod rhaid eu darparu ar gyfer yr holl gostau.
- Telir costau yn dilyn cwblhau'r ffurflen gwerthusiad bwrseriaeth a blog. Efallai y byddwn yn cyhoeddi'r blog i rannu gwybodaeth ddefnyddiol a hyrwyddo arfer gorau.
- Cyhoeddir a rhennir adroddiadau yn ddiennw, oni bai eich bod yn rhoi caniatad i'ch enw a manylion eich corff gael eu rhannu i'r union ddiben yma.

Camau Nesaf

Os hoffech drafod bwrseriaeth potensial gyda Chanolfan Ffilm Cymru cyn gwneud cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067

Cyllid arall sydd ar gael

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn cynnig cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer gweithgaredd arddangos annibynnol yng Nghymru. Rydym yn cynnig dau faes o gyllid ar draws 'hyfforddiant' a 'chynulleidfaoedd'. Gall aelodau wneud cais i'r canlynol:

Cynulleidfaoedd:

- [Cronfa Arddangos Ffilm \(CAFf\)](#)
- [Pot cynnig CAFf](#) (digwyddiadau sengl neu raglenni tymor byr)
- [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) (dylid gwneud ceisiadau i CAFf)
- [Ffilmiau newydd](#)
- [Rhaglenni Mawr BFI FAN](#)
- [Amseroedd yn Newid \(treftadaeth\)](#)

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cymorth marchnata, a newyddion diwydiant.

Dim yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

Mae ein haelodaeth am ddim i gyrff cymwys ac mae'n cynnig mynediad i'n hamrediad o gyllid, cefnogaeth a manteision. [Darllenwch ein canllawiau i aelodau ac ymunwch yma.](#)

Delwedd: Gentle/Radical
© Michal Iwanowski



@FilmHubWales

Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE
www.canolfanffilmcymru.org/cy/